**2019**

# Arwain

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Megan

## – llais llawn-amser i'r Gymraeg



Mae Megan Colbourne yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur ac at greu ychydig o hanes – hi yw Swyddog Materion Cymraeg llawn amser cyntaf Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Fe fydd y fyfyrwraig o Landysul yn rhan o dîm o ferched-yn-unig sydd ym mhrif swyddi'r Undeb, ar ôl i fyfyrwyr bleidleisio tros gael swydd lawn-amser i hyrwyddo'r iaith.

"Mae hyn yn fraint fawr i mi a dw i'n disgwyl ymlaen at y flwyddyn gyffrous a phrysur sy' o'm blaen," meddai Megan, sydd ar fin graddio mewn Daearyddiaeth.

"Fy mhrif nod yw cynyddu statws yr iaith ar draws y Brifysgol a gwneud yn siŵr bod myfyrwyr Cymraeg yn derbyn yr un faint o gymorth â phawb arall.

"Fe fyddaf hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Gymraeg a'r Cymdeithasau Chwaraeon Cymraeg i roi mwy o gymorth iddyn nhw. Yn amlwg, byddaf yn cydweithio gydag adrannau a sefydliadau sy'n cefnogi addysg a'r Gymraeg, gan gynnwys Academi Hywel Teifi y Brifysgol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Mentrau Iaith lleol ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld beth allwn ni ei ddatblygu gyda'n gilydd yma yn Abertawe."

### Tîm o ferched

Dyma'r tro cynta' hefyd i fenywod gymryd pob un o brif swyddi'r Undeb.

Fe fydd Megan yn cydweithio â Grace Hannaford (Llywydd), Teresa 'Tee' Ogbekhiulu (Addysg), Inês Teixeira-Dias (Cymdeithasau a Gwasanaethau), Ffion Davies (Chwaraeon) ac Ana Guri (Lles).

Wrth ddymuno'n dda i Megan yn ei gwaith newydd, dywedodd Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, Dr Gwenno Ffrancon, ei bod yn croesawu'r penderfyniad i droi'r swydd yn un llawn-amser.

"Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn sicrhau bod llais cryfach o fewn yr Undeb i'r miloedd o siaradwyr Cymraeg sy'n fyfyrwyr yn y Brifysgol," meddai.

"Edrychwn ymlaen fel Academi at gydweithio'n agos â Megan wrth gefnogi, datblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth addysgol a'r gwasanaethau Cymraeg o fewn yr Undeb a'r Brifysgol. Dyma bennod newydd gyffrous i'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ar drothwy canmlwyddiant y sefydliad."

10 UCHAF YN Y DU RHAGOLYGON GRADDEDIGION
(Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch 2018)

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2019
ENILLYDD PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

3 YDD RHATAF YN Y DU DINAS PRIFYSGOL
(totallymoney.com 2018)

FfRhA Aur

5 UCHAF YN Y DU BODDHAD MYFYRWYR
(Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2018)

# Gradd newydd i ateb gofynion Cymru heddiw

Mae Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe'n cynnig cyfle i astudio am radd newydd ac arloesol o fis Medi ymlaen.

Fe fydd y cwrs **BA Cymraeg: Iaith, Cyfraith a Pholisi** yn ymwneud ag amrywiaeth helaeth o bynciau gan gynnwys statws cyfreithiol y Gymraeg, yr iaith Gymraeg a datganoli, a rôl y Gymraeg mewn addysg.

"Mae'r radd yn gymhwyster sy'n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gofynion cyflogwyr a'r galw gan ddisgyblion ysgol," meddai Dr Rhian Jones, Pennaeth Adran y Gymraeg.

"Mae galw sylweddol am raddedigion sy'n deall materion fel cynllunio ieithyddol ac egwyddorion rheoleiddio yng nghyd-destun y Gymraeg.

"Bydd pwyslais cryf ar baratoi myfyrwyr ar gyfer byd gwaith a cheir amrywiol gyfleoedd i ennill profiad gwaith. Gall myfyrwyr hefyd ddewis treulio blwyddyn mewn gwaith, gan ddilyn y cwrs dros bedair blynedd."

Fydd dim rhaid bod wedi gwneud y Gymraeg at Safon Uwch i gael eich derbyn ar y cwrs, er y bydd disgwyl i ymgeiswyr fod wedi astudio pynciau perthnasol eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Croesi ffiniau

Mae'r cwrs yn enghraifft o'r cyfleoedd sydd yna yn Abertawe i groesi rhwng pynciau, gyda nifer o'r modiwlau, fel 'Statws y Gymraeg' a 'Hawliau Iaith yn y Cyd-destun Rhyngwladol' eisoes ar gael ac yn cael eu dilyn gan fyfyrwyr o adrannau eraill. Mae modiwlau ar y themâu hyn hefyd yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr sy'n astudio'r BA Cymraeg traddodiadol. "Rwyf wir yn mwynhau'r ddarpariaeth oherwydd fy mod wedi dysgu cymaint am ddatblygiad statws yr iaith dros y canrifoedd diwethaf," meddai Alpha Jones, sy'n fyfyrwraig blwyddyn gyntaf. "Mae hynny'n hollbwysig er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr am bwysigrwydd diogelu'r iaith i'r dyfodol."

Ymhlith y rhai a fydd yn cyflwyno modiwlau'r cwrs newydd mae'r Athro Gwynedd Parry, gŵr y mae ei yrfa ei hun wedi pontio'r gwahanol bynciau. Ar ôl cyfnod fel bargyfreithiwr, fe fu'n Athro yn Ysgol y Gyfraith y Brifysgol am flynyddoedd cyn symud i Adran y Gymraeg ddwy flynedd yn ôl.

Mae'n awdurdod ar hanes cyfreithiol Cymru ac fe fydd llyfr ganddo ar y Gyfraith mewn llenyddiaeth Gymraeg yn cael ei gyhoeddi'r haf yma.

"Dyma gwrs gradd unigryw yn ei gyfuniad o elfennau rhyngddisgyblaethol a rhyngwladol sydd yn rhoi'r sylfaen gorau ar gyfer cyfleoedd gyrfa ym maes cynllunio ieithyddol, a'r cyfan, wrth gwrs, trwy gyfrwng y Gymraeg," meddai.

**I gael gwybodaeth bellach, anfonwch neges at: cymraegabertawe@abertawe.ac.uk**



# Gwobr Gwyn Thomas – am astudiaeth o'i waith

Roedd ennill Gwobr Goffa Gwyn Thomas gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ei thraethawd estynedig yn anrhydedd fwy na'r cyffredin i fyfyrwraig o Brifysgol Abertawe.

Traethawd am y bardd ei hun oedd wedi cipio'r wobr iddi ac mae bellach yn gwneud doethuriaeth ar ei waith.

Ei chwrs gradd yn Abertawe oedd wedi ei hysbrydoli, meddai Lowri Havard, sy'n wreiddiol o Benrhyndeudraeth ond wedi derbyn ei haddysg uwchradd yn Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam.

"Mentrais i lawr i Abertawe i astudio'r Gymraeg, a chael amser gwych mewn adran glos iawn ei naws, gyda staff hynod gefnogol. Wrth wneud fy nhraethawd estynedig israddedig ar farddoniaeth Gwyn Thomas a'i ymdriniaeth ag angau a meidroldeb, daeth hi'n amlwg iawn i fi bod mawr angen astudiaethau pellach ar waith y bardd a'r ysgolhaig pwysig yma."

Y traethawd hwnnw a enillodd y Wobr Goffa iddi y llynedd – yr ail i ennill y wobr flynyddol.

"Roedd derbyn y wobr yn hwb anferth i barhau â'r gwaith, ac yn anrhydedd mawr," meddai.

"Y paradocs rhwng yr academydd disglair a'i farddoniaeth syml, uniongyrchol oedd wedi fy nenu yn wreiddiol, ond yr hyn sy'n ddiddorol yw sylweddoli bod ei waith ysgolheigaidd a'i waith creadigol yn cyd-blethu i'w gilydd.

"Mae'r adran yn Abertawe wedi rhoi llawer o gyfleoedd gwerthfawr iawn i fi. Ynghyd â chefnogaeth wych gyda fy astudiaethau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau darlithio, dw i hefyd wedi elwa o fod yn rhan o fywyd a bwrlwm yr Adran.

"Mae digonedd o gyfleoedd i rwydweithio, i rannu syniadau ac i gymdeithasu."




# Gwneud gradd – a hybu'r Gymraeg



Yn ogystal â dilyn cwrs gradd yn y Gymraeg yn Abertawe, mae Laura Hughes yn cael profiad uniongyrchol o hybu'r iaith yn ei hardal.

Bob dydd Gwener mae'r ferch o Glydach yn teithio lan y cwm i Bontardawe i'w swydd ran-amser yn Nhŷ'r Gwrhyd, y Ganolfan Gymraeg sy'n bartneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe a Chyngor Sir Castell-nedd Port Talbot.

"Mae cael gweithio yno yn wych," meddai Laura, sydd ar ei hail flwyddyn yn y Brifysgol.

"Dw i'n cael pob mathau o brofiadau amrywiol, yn gweithio yn y siop lyfrau, yn archebu stoc ac ymdrin ag ymholiadau cwsmeriaid ac ymwelwyr, neu'n cefnogi disgyblion ysgolion cynradd lleol gyda'u sgiliau darllen Cymraeg yn y Clwb Darllen wythnosol.

"Mae'n galonogol iawn gweld y diddordeb sydd gan bobl ddi-Gymraeg yn y Ganolfan a chymaint sy'n awyddus i wybod am y cyrsiau dysgu Cymraeg sydd gyda ni."

Er nad yw ei swydd gyflogedig yn uniongyrchol gysylltiedig â'i chwrs gradd, mae'n dweud bod y gwaith yn cyfoethogi ei phrofiad fel myfyriwr.

"Mae bod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd i hybu'r Gymraeg ar lawr gwlad yn sicr yn berthnasol iawn imi yn fy nghwrs gradd, ac mae Adran y Gymraeg wedi bod yn wych yn eu cefnogaeth," meddai.

# O Abertawe i helpu'r Scarlets!

Mae Brengain Jones wedi bod yn cydweithio â rhai o enwau mwya'r byd rygbi, diolch i'w chwrs ym Mhrifysgol Abertawe.

A hithau'n gwneud MA mewn Cyfathrebu, y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus, mae'r ferch o Lanfairfechan wedi bod yn treulio diwrnod yr wythnos ar brofiad gwaith gyda rhanbarth rygbi'r Scarlets yn Llanelli.

"Ychydig cyn dechrau'r cwrs mi ges i e-bost yn dweud bod y Scarlets yn cynnig profiad gwaith cysylltiadau cyhoeddus i ddau fyfyriwr, ac ro'n i'n ddigon ffodus i gael fy newis," meddai'r cyn-ddisgybl o Ysgol y Creuddyn ger Llandudno.

A hithau'n dilyn rygbi o bell, ond heb fod yn gefnogwraig selog, mae wedi gallu cymryd golwg annibynnol ar y ffordd y mae'r rhanbarth yn delio â chyhoeddusrwydd.

Daeth i'r casgliad yn fuan nad oedd y clwb yn neilltuo digon o adnoddau i allu cyfathrebu'n effeithiol â'i gefnogwyr.

"Pan ddechreuais i ar brofiad gwaith dim ond un person oedd yn gweithio'n llawn-amser ar y cyfryngau, ac roedd llawer gormod o waith i un," meddai. "Mae pethau wedi gwella dros y misoedd diwethaf wrth iddyn nhw ehangu'r adran."

Fe lwyddodd hefyd i gael cefnogwyr i groesi'r ffin rygbi o Abertawe i Barc y Scarlets, trwy chwarae rhan flaenllaw mewn prosiect i ddenu rhai o'i chyd-fyfyrwyr i un o'r gêmau cartref.

"Mi wnaethon ni gynnig arbennig i fyfyrwyr Prifysgol Abertawe – bws a thocyn a pheint a pei am £5 – ac mi brofodd hynny'n boblogaidd iawn, gan ddenu 40 i'r gêm," meddai Brengain.

Yn ystod y flwyddyn mae hi hefyd wedi bod yn brysur yn ysgrifennu negeseuon ar dudalennau Facebook a Twitter y clwb gan roi'r newyddion diweddaraf i gefnogwyr.

"Mae wedi bod yn hynod ddiddorol gweld sut mae clwb fel hyn yn gweithio," meddai. "A gweld pa mor bwysig ydi paratoi chwaraewyr ar gyfer cwestiynau gan newyddiadurwyr."




# Y gorau am sgiliau Cymraeg

Mae myfyrwraig sy'n astudio ar gyfer gradd mewn Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Abertawe wedi derbyn gwobr genedlaethol a chlod uchel am safon ei Chymraeg.

Cerian Fflur Colbourne, sy'n wreiddiol o Landysul, yw enillydd Gwobr Goffa Norah Isaac y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2019, wrth gael y canlyniad gorau yn asesiad Tystysgrif Sgiliau Cymraeg y Coleg.

Dyma'r ail waith i fyfyriwr o Brifysgol Abertawe gipio Gwobr Goffa Norah Isaac, sy'n cydnabod cyfraniad arloesol y ddarlithwraig a'r arbenigwraig ddrama Norah Isaac i fyd addysg Gymraeg.

Mae'r Dystysgrif Sgiliau iaith yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ym mhob maes i gynnal ac arddangos tystiolaeth o'u sgiliau iaith, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd Cerian, sydd ym mlwyddyn olaf ei chwrs ac yn chwaer i Megan, Swyddog Materion Cymraeg newydd Undeb Myfyrwyr Abertawe, ei bod yn ei theimlo'n fraint fawr i ennill y wobr.

"Roedd y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn ddefnyddiol iawn wrth fy helpu i ymarfer a chynnal fy sgiliau Cymraeg a byddwn i'n argymell i unrhyw un fynd amdani," meddai.



# Y Bad yn y Bae

## – llong ymchwil newydd y Brifysgol

Fe fydd ymwelwyr â maes Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd yn cael cyfle i weld llong newydd sy'n arloesi wrth chwilio am ffyrdd o ddefnyddio'r môr i gynhyrchu ynni gwyrdd.

Bydd yr RV Mary Anning, llong newydd Coleg Gwyddoniaeth Prifysgol Abertawe, wedi'i hangori o flaen adeilad y Senedd drwy gydol wythnos yr ŵyl.

Mae'r llong ymchwil hon yn mesur 18.5m x 6m ac yn gallu mordwyo ar gyflymder o 18kts a gwibio dros y dŵr ar gyflymder o 25kts. Mae labordai ymchwil a chyfrifiadurol ar ei bwrdd ac amrywiaeth o'r cyfarpar gwyddonol a thechnolegol diweddaraf.

Mae'r llong wedi cael ei henwi ar ôl un o'r merched cyntaf i arloesi fel biolegydd môr, casglwr ffosiliau a phalaeontolegydd.

Mary Anning (1799-1847) a helpodd i ddarganfod y gwelyau ffosiliau yn y môr o'r cyfnod Jurassic yn Lyme Regis yn ne Lloegr. Cafodd ei henwi gan y Gymdeithas Frenhinol yn 2010 yn un o'r deg o fenywod yng ngwledydd Prydain a ddylanwadodd fwyaf ar hanes gwyddoniaeth.

Bydd arddangosfa ar y llong yn darparu gwybodaeth am waith a chyfraniad Mary Anning.

Fe fydd y llong yn cael ei defnyddio'n helaeth ar gyfer prosiect Seacams2, sy'n bartneriaeth rhwng prifysgolion Abertawe a Bangor, i helpu datblygu cyfleoedd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy o'r môr. Bydd gweithio arni hefyd yn rhan allweddol o'r profiadau a gaiff myfyrwyr Prifysgol Abertawe wrth astudio'r cyrsiau Bioleg y Môr.

**Os hoffech wybod mwy am y llong, a gweld yr adnoddau sydd arni, dewch draw i'r GwyddonLe, a gaiff ei threfnu a'i noddi unwaith eto eleni gan Brifysgol Abertawe, i gasglu'ch tocyn am ddim.**






# Grug yn ennill Cadair Abertawe





Fe arhosodd y Gadair Ryng-golegol yn Abertawe, wrth i un o fyfyrwyr y Brifysgol gipio'r brif wobr lenyddol yn yr Eisteddfod eleni.

Fe ddaeth cannoedd o fyfyrwyr o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt i fwynhau eu hunain yn yr ŵyl dros benwythnos Gŵyl Ddewi.

Er mai Prifysgol Bangor oedd yr enillwyr, cafodd myfyrwyr Abertawe y pleser o weld Grug Muse, myfyriwr ymchwil yn Adran y Gymraeg, yn ennill y Gadair a gafodd ei dylunio gan ddisgybl o Ysgol Gyfun Ystalyfera Bro Dur.

"Roedd yn benwythnos i'w gofio!" meddai Becca Martin, trefnydd yr Eisteddfod a Swyddog Materion Cymraeg rhan-amser olaf Undeb y Myfyrwyr. "Roedden ni wrth ein bodd yn cael croesawu'r Eisteddfod Ryng-golegol i Brifysgol Abertawe eleni. Dros y deuddydd fe gafwyd cystadlu brwd rhwng prifysgolion Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd trwy gyfrwng chwaraeon, canu, dawnsio a pherfformio, cyn i'r cyfan ddod i ben gyda gig arbennig gan HMS Morris, Mellt a Candelas.

"Rydym ar ddechrau blwyddyn o ddathliadau i nodi canmlwyddiant Prifysgol Abertawe," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, "ac roedd cynnal yr Eisteddfod hon yn ffordd wych o ddathlu treftadaeth a bywyd Cymraeg y sefydliad ac i dynnu prifysgolion eraill Cymru i'r dathliadau hynny. O gofio hynny, bu gwylio cadeirio Grug Muse ar lwyfan yr Eisteddfod yn adeilad eiconig y Brifysgol, Tŷ Fulton, yn brofiad arbennig tu hwnt."







# Pedair yn ysbrydoli

**Tîm o bedair o ferched yw Llysgenhadon y Coleg Cymraeg yn Abertawe eleni. Eu rôl yw ymweld ag ysgolion i ysbrydoli rhagor o ddisgyblion i astudio drwy'r Gymraeg yn y brifysgol. Maen nhw hefyd yn ymweld â digwyddiadau cenedlaethol ac yn crynhoi eu profiadau mewn blog.**

"Mae'r Cymry yn nyts! Mae bod yn rhan o Gymdeithas Gymraeg yn y brifysgol yn anhygoel, a'r penderfyniad gorau wnes i," meddai **Hannah Nicole Davies** o Benygroes, Dyffryn Aman, sydd ar ei blwyddyn gyntaf yn astudio Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus yn Abertawe.

Ar un adeg, roedd hi fel llawer eraill yn poeni nad oedd ei Chymraeg yn ddigon da ond fe newidiodd ei meddwl ac mae wrth ei bodd.

"Fe wnes i ymgeisio i fod yn llysgennad er mwyn hybu'r iaith Gymraeg ac i gael disgyblion y chweched i weld y cyfleoedd anhygoel sydd ar gael wrth astudio trwy'r Gymraeg."

Eisiau dangos cymaint o gyfleoedd Cymraeg sydd yna mewn cyrsiau iechyd y mae **Shannon Rowlands** o Gastell Newydd Emlyn sydd ar ei blwyddyn gyntaf ar gwrs Meddygaeth i Raddedigion.

"Mae bod mewn prifysgol yng Nghymru'n golygu fy mod i'n gallu defnyddio'r Gymraeg, sy'n teimlo'n fwy cartrefol i fi, a dwi eisiau gweithio yma ar ôl graddio felly mae'n gwneud synnwyr cael fy hyfforddi yma yng Ngwasanaethau Iechyd Cymru."

"Cymraeg oedd fy hoff bwnc yn yr ysgol, a dw i wastad wedi bod eisiau astudio yn y Gymraeg," meddai **Lydia Hobbs** o Gaerdydd, sydd ar ei hail flwyddyn yn astudio'r Gymraeg fel ail iaith. "Dw i'n falch iawn o allu hyrwyddo astudio trwy'r Gymraeg ac yn mwynhau cwrdd â phobl newydd."

Gobeithio argyhoeddi pobl ifanc i ddilyn yn ôl ei thraed mae **Katie Emma Phillips** sy'n dod o Ferthyr ac yn falch o'r cyfle i barhau i astudio drwy'r Gymraeg wrth wneud BA Daearyddiaeth yn y Brifysgol.

"Mae mwy o gymorth a grwpiau llai wrth ddysgu trwy'r Gymraeg," meddai. "Mae'n eich helpu chi i ddatblygu sgiliau iaith Cymraeg, gwella eich hyder, a chreu ffrindiau newydd."

